

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Dydd Mercher, 6 Chwefror 2019
 Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Delyth Murphy, Dr Euryrn Roberts

Aelodau (Sefydliad): Dr Tudur Davies, James Dawson, Dr Paula Roberts, Dr Catrin Haf Williams

Aelodau (Myfyrwyr): Anna Jones, Rebecca Martin, Gethin Morgan

Aelodau (Addysg Bellach): -

Swyddogion: Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Coleg), Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Mari Fflur (Rheolwr Academaidd) Rhian Jones (Rheolwr Academaidd), Dr Lowri Morgans (Rheolwr Academaidd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Julie Brake, Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Dr Gwenno Ffrancon, Yr Athro Mererid Hopwood, Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Lisa Lewis, Dr Jonathan Morris, Bryn Hughes Parry, Yr Athro Eleri Pryse, Llŷr Roberts, Dr Elin Royles, Carys Swain, Dr Gwawr Taylor, Daniel Iplady, Dr Prysor Williams, Llion Carbis, William Chidley, Rhian Davies, Cerys Griffiths, Cathrin Jones

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>1. Croeso a Sylwadau Agoriadol</p>	<p>1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Croesawyd yr aelodau i Brifysgol Glyndŵr gan James Dawson, Cyfarwyddwr Cyswllt Cynllunio Strategol. Adroddodd bod Sioned Roberts wedi gadael ei swydd fel Swyddog Cangen y brifysgol a byddai penodiad newydd maes o law. 1.3. Estynnwyd croeso arbennig i Dr Haydn Edwards yn dilyn gwaeledd. 1.4. Estynnwyd croeso arbennig i Dr Paula Roberts, Cadeirydd Cangen Prifysgol Bangor, i'w chyfarfod cyntaf. 1.5. Croesawyd Dr Tudur Davies ar ran Dr Elin Royles.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>1.6. Nodwyd bod Sara Whittam wedi camu lawr o gadeiryddiaeth Cangen Prifysgol Caerdydd ac mai Dr Jonathan Morris yw ei holynydd. Diolchwyd iddi am ei gwaith arloesol ym maes cynllunio iechyd.</p> <p>1.7. Nodwyd bod Dr Myfanwy Davies wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd Academaidd yn dilyn ei phenodi'n Bennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu ym Mhrifysgol Bangor.</p>		
<p>2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb</p>	<p>2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>2.2. Nodwyd bod trê'n rhai o'r aelodau wedi'i ohirio.</p> <p>2.3. Nodwyd gofid ynghylch cynifer o absenoldebau.</p> <p>2.4. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		
<p>3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018</p>	<p>3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.</p>		
<p>4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr a swyddogion</p>	<p>4.1. Cafwyd diweddariad cyffredinol gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau. Adroddwyd bod y Coleg yn ymwybodol o'r cyfnod heriol yn y prifysgolion a bod y Coleg yn cefnogi diogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>4.2. Adroddwyd bod y cynllun grantiau pynciol wedi gwreiddio.</p> <p>4.3. Adroddwyd ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllideb y Coleg sy'n parhau'n gyson â llynedd ac felly'n gyson ag argymhelliad Diamond yn 2016.</p> <p>4.4. Adroddwyd ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch targedau yn y dyfodol a thrafodaethau gyda CCAUC i sicrhau bod mesuryddion cynlluniau ffioedd y prifysgolion yn gyson â thargedau'r Coleg.</p> <p>4.5. Adroddodd Dr Lowri Morgans ar y Cynllun Darlithwyr Cysylltiol, cynllun newydd i gadw cyswllt yn sgîl y ffaith bod y cynllun staffio yn dod i ben ymhen blwyddyn. Adroddwyd bod ffurflen enwebu ar gyfer Gwobrau'r</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Darlithwyr Cysylltiol i'w ganfod ar wefan y Coleg. Bydd 3 gwobr sef: arloesi ar draws ffiniau; adnodd cyfrwng Cymraeg; a hwyluso addysg cyfrwng Cymraeg. 25 Chwefror 2019 yw'r dyddiad cau. Sicrhawyd yr aelodau y byddai cynrychiolaeth myfyrwyr ar y paneli dyfarnu. Adroddwyd ymhellach bod Grantiau Arloesi newydd ar gyfer y Darlithwyr Cysylltiol sy'n annog cydweithio gyda sefydliadau addysg y tu hwnt i Gymru. 5 Ebrill yw'r dyddiad cau. Bydd noson wobrwyo'r Darlithwyr Cysylltiol ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 25 Mehefin 2019 gyda chynhadledd yn dilyn ar 26 Mehefin 2019. Croesawyd enwebiadau. Adroddwyd bydd pob cangen yn trefnu bwrdd i'r noson wobrwyo.</p> <p>4.6. Adroddodd Rhian Jones ar Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc. Adroddodd bod cynllun ehangach i'w gyhoeddi. Adroddodd ar gynllun y Gymraeg ar Daith sy'n targedu blynyddoedd 10-11 TGAU Llên. Eleni Hywel Griffiths, Rhys Iorwerth a Mererid Hopwood oedd y beirdd a gyflwynodd eu gwaith i'r disgyblion. Nodwyd bod darlithwyr yr adrannau Cymraeg yn gweld budd yn y fenter. Adroddwyd bod 1,500 o ddisgyblion wedi cwblhau holiaduron sydd yn barod i'w crynhoi a'u gwerthuso.</p> <p>4.7. Adroddwyd ar y Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogiad. Adroddwyd ar y cynllun peilot yn Nyffryn Nantlle lle y byddai'r disgyblion yn ymweld â Phrifysgol Bangor y diwrnod canlynol. Ystyrir y cynllun peilot ar gyfer y de-orllewin. Nodwyd y byddai adroddiad ar y cynllun gweithredu yn nhymor yr hydref. Nodwyd yr angen i gadw Strategaeth Ehangu Mynediad fel eitem sefydlog.</p> <p>4.8. Adroddwyd ar y trefniadau i ddatblygu cysylltiadau â Gwlad y Basg. Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi bod ar daith i Wlad y Basg gyda chynrychiolwyr Addysg Bellach y llynedd. Bydd rhai o swyddogion y Coleg yn mynd ar</p>	Ehangu Mynediad a Chyfranogiad	Eitem sefydlog

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>daith fis Mawrth i ymweld â'i phrifysgolion.</p> <p>4.9. Adroddodd y Deon ar ddatblygiadau i gynnal cyswllt â myfyrwyr sy'n astudio tu hwnt i Gymru. Bydd yn cwrdd â myfyrwyr yng Nghaer-grawnt, Rhydychen, Llundain a grŵp myfyrwyr dros y ffin yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r Coleg wrthi'n creu strwythur creu cysylltiad i fyfyrwyr o'r fath.</p> <p>4.10. Adroddwyd ar ddigwyddiad prentisiaethau gyda Kirsty Williams. Adroddwyd ymhellach bod y Coleg yn y broses o benodi Rheolwr Addysg Bellach. Adroddwyd hefyd bod y Coleg yn aelod cysylltiol o GolegauCymru.</p>		
<p>5. Materion y myfyrwyr (Eitem 5)</p>	<p>5.1. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar sefydlu Llywydd etholedig cenedlaethol i gefnogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gan Gethin Morgan.</p> <p>5.2. Nodwyd bod yr aelodau'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi egwyddor yr argymhelliad o ddatblygu Llywydd cenedlaethol • Yn argymhell cyflwyno'r egwyddor i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 20 Mawrth 2019 • Cynnig bod y Coleg yn hwyluso trafodaeth rhwng yr undebau myfyrwyr ac UCMC 	<p>Adam Jones i gyd-lynu rhwng y Coleg a'r myfyrwyr</p>	<p>Chwefror 2019</p>
<p>6. Diweddariad ar ddata</p>	<p>6.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar ddata myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2007 a 2018 gan y Cofrestrydd.</p> <p>6.2. Nodwyd y dadansoddiad ar ddata ceisiadau myfyrwyr; derbyniadau Cymru gyfan; y pynciau mwyaf poblogaidd a'u bod yn cynrychioli dros hanner y 24,000 myfyriwr yng Nghymru; bod Nyrsio, Peirianeg a Chyfrifiadureg wedi cynyddu'n sylweddol; bod y Celfyddydau a Dyniaethau wedi llithro'n ddieithriad gyda Chymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Modern wedi dioddef yn benodol a hynny ar sail</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>niferoedd cymharol fychan i ddechrau; a bod niferoedd yn astudio rhywfaint yn y Gymraeg a 40+ credyd wedi cynyddu rhwng 2011/12 a 2016/17.</p> <p>6.3. Nodwyd cynlluniau'r dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i weithio gyda phrifysgolion i adnabod manau ble gellid buddsoddi mewn grantiau sbarduno • Monitro grantiau pynciol gyda ffocws ar niferoedd myfyrwyr • Gweithredu argymhellion data – adroddiad i Lywodraeth Cymru • Sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau ffioedd, mesuryddion CCAUC a thargedau'r Coleg • Cadarnhau'r sefyllfa o ran archwilio mewnol ar ddata cyfrwng Gymraeg • Dadansoddi patrymau dewis myfyrwyr yn fwy eang • Gweithio gyda darparwyr AU mewn AB i sicrhau fod cyfraniad addas yn cael ei wneud <p>6.4. Yn dilyn trafodaeth nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y gellid gweld lleihad demograffig yn y data • Yr angen am ddadansoddiad sgiliau ieithyddol Cymraeg • Defnyddio niferoedd TGAU iaith Gymraeg fel mesurydd • Defnyddio'r data i fonitro grantiau pynciol – yr angen am fodel ymatebol i batrymau myfyrwyr • Pwysigrwydd targedau ystyrlon a chytundeb ar fesuryddion prifysgolion <p>6.5. Cytunwyd i gylchredeg adroddiad ar faterion cysylltiedig â data, a luniwyd ar gais Llywodraeth Cymru, i'r Canghennau.</p>	<p>Cylchredeg yr adroddiad i'r Canghennau</p>	<p>Chwefror 2019</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>7. Cynllunio pynciol (Eitemau 7ia/b)</p> <p>(Eitem 7ii)</p>	<p>7.1. Adroddwyd bod y cynlluniau a gymeradwywyd yn y cyfarfod diwethaf ar y wefan.</p> <p>7.2. Cyflwynwyd y cynlluniau pynciol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crefydd • Addysg <p>7.3. Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y cynlluniau.</p> <p>7.4. Adroddwyd bod cynllun y Gymraeg i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>7.5. Cyflwynwyd papur ar broses adolygu'r cynlluniau pynciol gan Dr Lowri Morgans.</p> <p>7.6. Yn dilyn trafodaeth lawn cytunwyd ar y broses adolygu.</p> <p>7.7. Yn ystod y drafodaeth nodwyd gofid ynghylch absenoldeb rhai sefydliadau o'r paneli pwnc.</p>		
<p>8. Datblygu'r Gymraeg yn y sector Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle</p>	<p>8.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar ddatblygu'r Gymraeg yn y sector Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle gan y Cofrestrydd.</p> <p>8.2. Nodwyd bod cynllun, yn seiliedig ar argymhellion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Grŵp Cynllunio Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle, dan gadeiryddiaeth Dr Ioan Matthews, wedi ei gytuno a'i lansio ar 24 Ionawr 2019.</p> <p>8.3. Amlinellwyd y model (ar ffurf pyramid) o ddatblygu sgiliau sy'n dechrau gydag ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, hyder ac yn esgyn i ruglder.</p> <p>8.4. Nodwyd bod angen sicrhau'r elfennau canlynol sef: dysgwyr, staff, darpariaeth, adnoddau, cymwysterau, a chyflogwyr er mwyn ymgynhyrchu Strategaeth Iaith 2050.</p> <p>8.5. Nodwyd y meysydd blaenoriaeth sef Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.</p> <p>8.6. Nodwyd bod prosiectau cychwynnol ym maes adnoddau ac agweddau dysgwyr wedi'u cwblhau; bod angen gweithredu ar agweddau tymor byr y cynllun gweithredu; angen cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>adnabod elfennau y gellir eu symud ymlaen yn syth a'r elfennau sydd angen cynllunio ac sydd angen adnoddau mwy tymor hir; ac asio gweithgareddau yn ystod y cyfnod nesaf gyda'r strategaeth.</p> <p>8.7. Adroddwyd y deuai'r adnoddau o arian prosiect / hybu a hyrwyddo; Cynllun Cymraeg gwaith Addysg Bellach / Prentisiaethau; Cyfieithu cymwysterau CBAC; Hyfforddiant Staff; Cyllideb Comisiynu Adnoddau Llywodraeth Cymru; Arian Dysgu ac Addysgu.</p> <p>8.8. Nodwyd bod gwaith sylfaenol i ganfod pwy sy'n gymwys i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector.</p>		
<p>9. Addysg Gychwynnol Athrawon (Eitem 9)</p>	<p>9.1. Cyflwynwyd papur ar Addysg Gychwynnol Athrawon gan Rhian Jones.</p> <p>9.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gwerthusiad o ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol Athrawon ym mis Hydref 2018.</p> <p>9.3. Adroddwyd bod trefniadau eleni yn parhau yn yr un modd ond bod angen cyd-lyniant cenedlaethol i sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru.</p>		
<p>10. Ysgoloriaethau 2018/19</p>	<p>10.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar Ysgoloriaethau 2018/19 gan y Cofrestrydd.</p> <p>10.2. Adroddwyd bod y cynllun Ysgoloriaethau wedi ei sefydlu yn 2011 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prif Ysgoloriaethau ar gyfer unigolion yn astudio o leiaf 80 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg • Ysgoloriaethau Cymhelliant ar gyfer unigolion yn astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn pynciau blaenoriaeth • Ysgoloriaethau Meistr ar gyfer unigolion yn astudio 		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>o leiaf 120 o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys 60 credyd wedi'i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>10.3. Adroddwyd bod Ysgoloriaethau 2018 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer cyfyngedig o brif ysgoloriaethau ar gael • Ysgoloriaethau cymhelliant yn cael eu cynnig ar ddechrau'r tymor gan y Gangen ac i'w dyfarnu yn unol â blaenoriaethau'r Gangen • Cynllun Meistr wedi dod i ben yn sgîl newidiadau yn y patrwm cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr ôlraddedig • Sawl Ysgoloriaeth newydd wedi datblygu gan gynnwys Ysgoloriaethau William Salesbury, Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies, Ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd <p>10.4. Cymharwyd dyfarnu Ysgoloriaethau rhwng 2011 a 2018 a dosbarthiad yr Ysgoloriaethau.</p> <p>10.5. Adroddwyd mai'r bwriad yn y dyfodol yw</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i fireinio prosesau a sicrhau y gwerth gorau o'r Ysgoloriaethau • Plethu'n agosach gyda chynlluniau ffioedd y prifysgolion • Ysgoloriaethau Ehangu Mynediad i ofalwyr neu unigolion a fu'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol • Ystyried darpariaeth lefel 4, materion dilyniant – yn benodol o Golegau Addysg Bellach <p>10.6. Trafodwyd rhinweddau cynnig Ysgoloriaethau Cymhelliant mewn amrediad o bynciau.</p>		
<p>11. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 10)</p>	<p>11.1. Cymeradwywyd yr argymhelliad i benodi Dr Marion Loeffler fel aelod arall i'r pwyllgor.</p> <p>11.2. Nodwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi, 21 Tachwedd 2018, er gwybodaeth.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	11.3. Adroddwyd bod yr Athro Jerry Hunter wedi datblygu canllawiau ar gyfer cyflwyno ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.		
12. Pwyllgor Cydweithio Academaidd	12.1. Sefydlwyd y Pwyllgor Cydweithio Academaidd yn 2012 i drafod materion yn ymwneud â chydweithio sefydliadol. Gan bod canllawiau wedi'u gosod a'u cytuno nid oes angen i'r pwyllgor gwrdd yn rheolaidd erbyn hyn.		
13. Trefniadau Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Coleg	13.1. Nodwyd bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Llys ym Mhrifysgol Bangor ar 19 Mawrth 2019 ac mai Delyth Murphy fydd cynrychiolydd aelodaeth staff y Coleg ac Elin Gaffey fydd cynrychiolydd aelodaeth myfyrwyr y Coleg. Bydd Cynulliad Blynyddol y Coleg yn dilyn y cyfarfod. Bydd Catrin Dafydd, Andrew Green a'r Athro Deri Tomos yn cael eu hurddo'n Gymrodyr y Coleg.		
14. Materion yn codi	<p>14.1. <u>Eitem 5.3: Cynllun Strategol y Coleg.</u> Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn trafod Cynllun Strategol y Coleg ar 20 Mawrth 2019.</p> <p>14.2. <u>Eitem 5.7: HEIW.</u> Adroddwyd bod y swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), corff sy'n gyfrifol am addysg Gwyddorau Iechyd ac eithrio Meddygaeth israddedig, lle nodwyd cyfranogiad y Coleg.</p> <p>14.3. <u>Eitem 7.3: Papur trafod y myfyrwyr ar ddiffinio cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.</u> Atgoffwyd y canghennau i drafod y papur.</p> <p>14.4. <u>Eitem 7.4: QAA.</u> Adroddwyd bod Comisiynydd y Gymraeg wedi codi nifer o gwestiynau ynghylch cadernid y canllawiau.</p> <p>14.5. <u>Eitem 13: Marchnata a Chyfathrebu.</u> Adroddwyd nad oedd swydd y Rheolwr Cyfathrebu wedi'i lenwi eto.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
15. UFA	<p>15.1 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyllid i ddoethuriaethau gofynnwyd am ragrybudd yn y dyfodol ar gyfer ceisiadau. Eglurwyd mai chwistrelliad ychwanegol o gyllid yn hwyr yn y dydd oedd y rheswm am y byr-rybudd eleni. Rhagwelwyd y gellid blaengynllunio'r flwyddyn nesaf.</p> <p>15.2 Nododd y Deon ei fod yng nghanol ei daith flynyddol â'r sefydliadau.</p> <p>15.3 Mewn ymateb i'r gofid ynghylch presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd nodwyd bod disgwyl i'r canghennau anfon dirprwy.</p> <p>15.2 Yn deillio o drafodaeth gynharach ynghylch absenoldeb rhai sefydliadau o'r paneli pwnc cytunwyd bod disgwyliad i bob sefydliad sy'n derbyn grant pynciol fod yn bresennol er mwyn osgoi bygythiad i'r grant.</p>	<p>PW i anfon neges at y canghennau LM i gyd-lynu bod y Swyddogion Pwnc yn anfon neges at y paneli</p>	<p>Chwefror 2019 Tymor y Gwanwyn 2019</p>
16. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	<p>16.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 8 Mai 2019, Prifysgol Caerdydd • 9 Hydref 2019, Prifysgol Aberystwyth • 5 Chwefror 2020, Prifysgol Abertawe • 13 Mai 2020, Prifysgol Bangor <p>16.2. Diolchwyd i Brifysgol Glyndŵr am y croeso ac am letya'r cyfarfod.</p>		